

Dechrau Blwyddyn

Darlleniad 1 : Josua 1: 1-9, 3: 1-4
Darlleniad 2 : Rhufeiniaid 12: 9-21

Wrth droi atat, Arglwydd ein Duw, ein Craig a'n Prynwr, ar ddechrau blwyddyn arall, argyhoedda ni o'r newydd ein bod ni, sydd mor gaeth i amser, yn cael braint wrth agosáu atat ti, y Duw diamser. Na foed inni anghofio fod un diwrnod yn dy olwg di fel mil o flynyddoedd, a mil o flynyddoedd fel doe - cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Ti sydd Dduw. Wrth feddwl mai dros amser yn unig yr ydym yn tramwyo'r ddaear, dysg inni gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth.

Derbyn ein diolch am dy gysgod yn y gorffennol. Bu dy ddaioni a'th drugaredd yn ein canlyn. Wrth ddiolch am fendithion bywyd a fu'n ein cynnal, wrth ddiolch am dy haelioni a ddaeth bob bore o'r newydd, cofiwn a meddyliwn am y rheiny sydd, ar ddechrau blwyddyn arall, yn cael anhawster i gredu ynot ti o gwbl. Pobl a'u hamgylchiadau wedi eu chwerwi. Pobl o bob oed a'u gobeithion wedi troi'n lludw. Pobl wedi edrych am bethau gwych i ddyfod, ond croes i hynny wedi digwydd. Pobl wedi gobeithio am y melys ond wedi cael wermod. Gweddiwn yn arbennig dros bobl fel hyn, Arglwydd. Pâr i'r flwyddyn newydd ddod â rhyw orfoledd iddynt, rhyw dangnefedd a chysur o'r newydd na fedr y byd ei roddi. Planna obaith yn eu calonnau.

Wrth inni sylweddoli mai yn dy law di y mae ein hamserau, helpa ni i gofio er hynny dy fod yn gosod cyfrifoldeb mawr arnom ni. Gad inni dreulio'r flwyddyn newydd yn nes atat ti. Diolchw'n dy fod yn gwybod ein defnydd ni; yr wyt wedi ein chwilio a'n hadnabod, yn gwybod ein meddyliau o bell. Gwnawn addunedau fil ond methwn â'u cadw. Y flwyddyn hon eto, byddwn yn gwneud y pethau na ddylem, ac yn esgeuluso gwneud y pethau y dylem eu gwneud.

Byddwn fel defaid yn troi, bawb i'w ffordd eu hun. Byddwn yn hunanol - yn meddwl amdanom ein hunain yn unig. Arglwydd trugarog, ar ambell adeg o leia yng nghanol ein prysurdeb materol, cwyd ein meddyliau ni uwchlaw cymylau amser, i geisio meddwl am egwyddorion dy deyrnas di.

Ar ddechrau blwyddyn newydd gweddiwn dros blant ein gwlad. Cyflwynwn hwynt i ti. Mae'r dyfodol o'u blaen hwy. Dyfodol, fel pob dyfodol erioed, sydd yn ansicr. Mae yna demtasiynau fil yn mynd i'w hwynebu. Bydd peryglon ar bob llaw. Cadw hwy yn ddiogel, O! ein Duw, oddi wrth bob math o gyffuriau sydd mor niweidiol, oddi wrth ddrygioni o bob math. Meddyliwn am blant heb ddiogelwch cariad, na chartref lle mae mam a thad yn ofalus ohonynt. Am blant sy'n cael eu magu mewn tlodi, hyd yn oed mewn gwlad fel ein gwlad ni. O! Dduw, cymer drugaredd ar ein dyddiau.

Gweddiwn dros ein pobl ifainc. Llawer ohonynt mewn anobaith oherwydd diffyg gwaith. Llaweroedd yn cael bywyd yn ddiflas a dibwrpas. Gweddiwn dros y rhai sy'n alluog ac yn cael bywyd yn rhwydd, ar iddynt gael eu hargyhoeddi o gymaint sydd ganddynt i'w gyfrannu i gymdeithas.

Ar ddechrau blwyddyn newydd gweddiwn yn arbennig iawn dros yr Eglwys - pob cangen ohoni. O! na fyddai'r flwyddyn newydd yn dod â ni'n nes at ein gilydd, i fod yn un. Diolchwn am yr efengyl - yr efengyl y daeth dy Fab Iesu Grist â hi i'n byd. Ar ddechrau blwyddyn, diolchwn fod Iesu Grist, fel ei efengyl, yr un ddoe, heddiw ac am byth. Hiraethwn am weld yr efengyl yn cael ei lle o'r newydd yng nghalonau a bywydau pobl. O! ein Duw, galw eto fyrddiynau ar dy ôl.

Rho dy fendith ar y flwyddyn newydd hon. Cymer ni yn dy law. Gofynnwn y cwbl yn enw ein Harglwydd, ein Prynwr, ein Gwardwr, Iesu Grist. Amen.

Gareth Alban Davies